

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 4 Hydref 2021 0300 200 6565
Amser: 14.00 Deisebau@senedd.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
(Tudalennau 1 – 31)

- 2 **Deisebau newydd**
 - 2.1 P-06-1173 Amddiffyniad Cyfreithiol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig
dynodedig yng Nghymru
(Tudalennau 32 – 37)
 - 2.2 P-06-1179 Peintiwch y trenau ar reilffordd canolbarth Cymru fel eu bod yn
debyg i lindys, er mwyn rhoi hwb i dwristiaeth
(Tudalennau 38 – 43)
 - 2.3 P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob
ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy
(Tudalennau 44 – 49)
 - 2.4 P-06-1188 Dechrau Cynllun Erasmus yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n
astudio yng Nghymru fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd
(Tudalennau 50 – 55)
 - 2.5 P-06-1189 Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth
sy'n astudio meddygaeth fel ail radd
(Tudalennau 56 – 63)
 - 2.6 P-06-1190 Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw
ddeunydd tyfu erbyn 2023
(Tudalennau 64 – 71)
 - 2.7 P-06-1192 Dylid sicrhau bod graddau asesu canolfannau yn cyfrannu at y
graddau TGAU a Safon Uwch terfynol
(Tudalennau 72 – 78)



- 2.8 P-06-1196 Gwobr Urdd Marchog Cymru
(Tudalennau 79 – 84)
- 2.9 P-06-1198 Achub y coed, y gwrychoedd a'r caeau yng Nghefn yr Hendy,
Meisgyn
(Tudalennau 85 – 106)
- 2.10 P-06-1199 Gosod Gwasanaethau Plant Caerdydd mewn mesurau arbennig
(Tudalennau 107 – 116)
- 2.11 P-06-1203 Peidiwch â chyflwyno pasbortau brechlyn COVID-19 ar gyfer
lleoliadau manwerthu a lletygarwch neu leoliadau eraill
(Tudalen 117)
- [Rheoliadau Diogelulechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif5\) \(Cymru\)
\(Diwygio\) \(Rhif17\) 2021](#)
- [Rheoliadau Diogelulechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif5\) \(Cymru\)
\(Diwygio\) \(Rhif17\) 2021 – Memorandwm Esboniadol](#)

Deisebau y gellir eu dirwyn i ben

- 2.12 P-06-1214 Dylid gwahardd defnyddio masgiau wyneb yn yr ystafell
ddosbarth
(Tudalen 118)
- 2.13 P-06-1215 Ailddechreuwch parkruns Cymru yr un pryd â rhai Lloegr
(Tudalen 119)
- 2.14 P-06-1216 Lleihau'r costau ar gyfer prawf PCR yng Nghymru i'r rhai sy'n
dychwelyd o wyliau tramor a rhoi terfyn ar hunanynysu i'r rhai sydd wedi cael
y brechlyn
(Tudalen 120)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Y Prif Weinidog

- 3.1 P-05-1046 Ailystyried y cyfnod clo ac ymchwilio i dystiolaeth wyddonol nad yw'n gweithio a'i fod yn achosi mwy o niwed

(Tudalennau 121 – 124)

Tai a Llywodraeth Leol

- 3.2 P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru

(Tudalen 125)

[Trawsgrifiad o'r Cyfarfod Llawn, 17 Mawrth 2021](#)

- 3.3 P-05-1129 Mae angen cymhwyso mesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiddymu Lesddaliad

(Tudalennau 126 – 131)

Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

- 3.4 P-05-1094 Rhoi terfyn ar ddirywiad treftadaeth Pontypridd – achubwch y Bont Wen

(Tudalennau 132 – 134)

- 3.5 P-05-1142 Cynllun Mynd Allan i Helpu Allan

(Tudalennau 135 – 137)

Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

- 3.6 P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

(Tudalennau 138 – 142)

- 3.7 P-05-1097 Dylid gwahardd cewyll adar hela

(Tudalennau 143 – 145)

3.8 P-06-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

(Tudalennau 146 – 148)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.9 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi faint o fabanod & plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad

(Tudalennau 149 – 156)

Y Gymraeg ac Addysg

3.10 P-06-1164 Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol

(Tudalennau 157 – 159)

Economi

3.11 P-06-1167 Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru

(Tudalennau 160 – 162)

4 Papur i'w nodi

(Tudalen 163)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6 o'r cyfarfod.

6 Sesiwn gynllunio strategol / Cyflwyniad data deisebau

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1173: Amddiffyniad Cyfreithiol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig yng Nghymru.

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 Hydref 2021

Cyfeirnod: SR21/0497-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1173

Teitl y ddeiseb: Amddiffyniad Cyfreithiol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig yng Nghymru.

Geiriad y ddeiseb: Mewn ymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddiogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn feysydd tirwedd uchel o bwys ar gyfer gwerth amgylcheddol, corfforol, gweledol, diwylliannol neu hanesyddol a gallan nhw fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n neilltuol, ond NID YDYN NHW WEDI'U HAMDDIFFYN.

Mae eu coetiroedd hynafol, rhywogaethau prin, ardaloedd arbennig o gynefin neu'r man lle y maen nhw'n bodoli yn agored i niwed yn sgil ffyrdd newydd, parciau busnes neu ddatblygiadau niweidiol eraill.

Rhagor o fanylion

Mae enghraifft o Ardal Tirwedd Arbennig sydd mewn perygl ym mhentref cadwraeth Pendeulwyn yn Nyffryn Elái, y mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig adeiladu ffordd cludo nwyddau newydd drwyddo. Bydd y ffordd hon yn dinistrio coetir hynafol a bywyd gwylt sydd mewn perygl yn ogystal â llygru'r cyrsiau aer a dŵr y mae'r Ardal Tirwedd Arbennig hon yn dibynnu arny'n nhw.



Yn anffodus, nid oes unrhyw amddiffyniad i fod yn Ardal Tirwedd Arbennig, felly mae cynllunwyr a datblygwyr yn rhydd i ddatblygu pa bynnag gynlluniau y maent eu heisiau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gofio eu hymrwymiad i bolisiau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, a'u cyfrifoldebau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae angen rhoi amddiffyniad Cyfreithiol ar frys i ardaloedd unigryw yng Nghymru sydd eisoes wedi'u nodi fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

Cefndir

Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn **ddynodiad anstatudol** a ddefnyddir gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddiffinio ardaloedd lle mae'r dirwedd o bwysigrwydd uchel, ledled y DU. Mae dynodiadau ATA yn cydnabod gwerth ffisegol, amgylcheddol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol tirweddau o'r fath, a'u nod yw eu hamddiffyn.

Dylai awdurdodau cynllunio nodi pa nodweddion neu rinweddau y mae angen amddiffyniad ychwanegol ar eu cyfer, ac egluro sut y bydd y polisi neu'r dynodiad yn cyflawni hyn.

Efallai y bydd mwy nag un rôl ar gyfer ATA:

- cydnabod ac amddiffyn (drwy reoli datblygu) tirweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi'n lleol ac sy'n bwysig am eu cymeriad unigryw, eu rhinweddau a'u hymdeimlad o le/'bro';
- dylanwadu ar gynllunio tirwedd yn gadarnhaol. Er enghraifft, drwy gynhyrchu canllawiau dylunio i wella cymeriad y dirwedd neu i dargedu grantiau rheoli tir er mwyn gwarchod nodweddion arbennig y dirwedd a gydnabyddir o fewn yr ATA; a/neu
- cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd tirweddau lleol i gymunedau, ymwelwyr a'r cyhoedd yn fwy eang.

Gellir cynnwys ATA mewn Cynllun Datblygu Lleol neu Gynllun Datblygu Unedol awdurdod cynllunio lleol (lle nad oes Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu eto) i nodi ardaloedd ar gyfer cyflwyno lefel ychwanegol o amddiffyniad i dirwedd drwy bolisiau tirwedd arbennig.

Mae papur Llywodraeth Cymru ar y ddeiseb hon yn nodi y dylai LANDMAP (offeryn polisi a phenderfynu ar gyfer tirweddau a gynhelir ac a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru) ac unrhyw asesiadau cysylltiedig o gymeriad tirweddau gael eu defnyddio i lywio polisiau tirwedd lleol ac i helpu i nodi neu adolygu ATA.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (Polisi Cynllunio Cymru 11) yn nodi:

Dynodiadau anstatudol yw ATA sy'n diffinio ardaloedd lleol o bwysigrwydd tirwedd mawr, a allai fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n benodol i'r ardal. Dylai awdurdodau cynllunio roi'r dynodiadau hyn ar waith lle mae rheswm da dros gredu na all polisiau cynllunio arferol eu gwarchod yn ddigonol.

Mae Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru yn cyflwyno ym Mholisi 9 ddull ar gyfer amddiffyn cynefinoedd (ymhlith amcanion eraill) i sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu'n ormodol gan ddatblygiadau. Nod y polisi hwn yw diogelu ardaloedd o dir sy'n bwysig ar gyfer ehangu neu gysylltu rhwydweithiau ecolegol, addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu bwysau eraill, neu ddarparu gwasanaethau ecolegol allweddol.

Mae llythyr y Gweinidog ar y ddeiseb hon yn nodi:

Er ei bod yn 'ddyddiau cynnar' i bolisiau Cymru'r Dyfodol hidlo drwy'r system gynllunio, mae dyheadau polisi Llywodraeth Cymru yn uchel ac yn uchelgeisiol; mae statws cyfreithiol Cymru'r Dyfodol yn golygu bod yn rhaid i bolisiau a phenderfyniadau lleol gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol.

Camau gweithredu'r Senedd

Ni fu unrhyw gamau sylweddol gan y Senedd i roi amddiffyniad cyfreithiol i ATA dynodedig hyd yma.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1173
Ein cyf/Our ref JJ/10901/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

16 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-06-1173 'Rhowch warchodaeth gyfreithiol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig yng Nghymru' a chynnig cyfle i gyflwyno rhai safbwyntiau i'r Pwyllgor ar y materion a godir yn y ddeiseb.

Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn fecanwaith polisi cynllunio hirsefydlog, a ddefnyddir yn eang gan awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu ar gyfer gwarchod a gwella tirweddau lleol. Er eu bod yn ddynodiad tirwedd anstatudol (o'i gymharu â Pharc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) maent yn fecanwaith polisi sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i gydnabod nodweddion, priodoleddau a rhinweddau tirwedd o arwyddocâd lleol. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi ystyried, ac yn parhau i ystyried, ATA fel ffordd o ddiogelu tirweddau sensitif mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac wrth ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r nodweddion hynny sy'n rhoi ymdeimlad o le i ardal.

Mae'r broses o ddynodi ATA a ddilynir gan awdurdodau cynllunio lleol yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth (Polisi Cynllunio Cymru 11, para 6.3.12/13); dylai awdurdodau cynllunio ddatgan pa nodweddion, priodoleddau neu rinweddau tirwedd sydd angen eu diogelu'n ychwanegol ac egluro sut y bydd y polisi neu'r dynodiad yn cyflawni'r amddiffyniad hwn. Dylid defnyddio [LANDMAP](#) (polisi tirwedd cenedlaethol ac offeryn gwneud penderfyniadau a gynhelir ac a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru) ac unrhyw asesiadau cymeriad tirwedd cysylltiedig i lywio polisiau tirwedd lleol ac i helpu i nodi neu ddiwygio ATA.

Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn ddiawys yn datgan mai “dynodiadau anstatudol yw ATA sy'n diffinio ardaloedd lleol o bwysigrwydd tirwedd mawr, a allai fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n benodol i'r ardal. Dylai awdurdodau cynllunio roi'r dynodiadau hyn ar waith lle mae rheswm da dros gredu na all polisiau cynllunio arferol eu gwarchod yn ddigonol”.

Ochr yn ochr â'r fframwaith polisi ar gyfer ATA fel y'u pennir ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae gennym hefyd fframwaith polisi ehangach, cyd-destunol yng Nghymru'r Dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 36
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cyflwyno dull diogelu ym Mholisi 9 ar gyfer gwarchod cynefinoedd (ymhlith amcanion eraill) i sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu'n ormodol gan ddatblygiadau. Mae'r polisi cynllun datblygu haen uchaf hwn yn gosod canllaw polisi cryf i helpu i sicrhau nad yw ardaloedd o dir a allai fod yn bwysig ar gyfer ehangu neu gysylltu rhwydweithiau ecolegol, addasu i newid yn yr hinsawdd neu bwysau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau ecolegol allweddol yn cael eu peryglu gan ddatblygiad. Mae'r polisi diogelu yn gweithredu ar raddfa tirwedd a gellir diogelu ardaloedd am amrywiaeth eang o resymau. Gall y rhain gynnwys cynyddu gwytnwch neu gysylltedd rhai mathau o gynefinoedd, creu cynefin, neu ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd.

Gall y dull polisi diogelu fel y'i nodir yng Nghymru'r Dyfodol helpu i ddiogelu ac adfer nodweddion tirwedd a gall alluogi'r system gynllunio i weithredu a all ategu dulliau ehangach o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Er ei bod yn 'ddyddiau cynnar' i bolisïau Cymru'r Dyfodol hidlo drwy'r system gynllunio, mae dyheadau polisi Llywodraeth Cymru yn uchel ac yn uchelgeisiol; mae statws cyfreithiol Cymru'r Dyfodol yn golygu bod yn rhaid i bolisïau a phenderfyniadau lleol gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol.

Hyderaf y bydd y wybodaeth uchod yn helpu'r Pwyllgor wrth i chi baratoi ar gyfer ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

P-06-1179 Peintiwch y trenau ar reilffordd canolbarth Cymru fel eu bod yn debyg i lindys

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21/0740-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1179

Teitl y ddeiseb: Peintiwch y trenau ar reilffordd canolbarth Cymru fel eu bod yn debyg i lindys, er mwyn rhoi hwb i dwristiaeth.

Geiriad y ddeiseb: I roi hwb i dwristiaeth yng nghanolbarth Cymru, peintiwch y trenau dau gerbyd fel eu bod yn edrych fel lindys. Byddai plant o Birmingham a Gorllewin Canolbarth Lloegr wrth eu boddau'n mynd ar drên y lindysyn i lan y môr. Byddai hefyd yn dod â gwen i wyneb pawb a fyddai'n eu gweld yn teithio i lawr y trac. Mae dirfawr angen hynny yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Byddai'n ffordd hawdd o ddenu twristiaeth a byddai'n cael sylw yn y wasg genedlaethol a rhyngwladol. Byddai'n bosibl trefnu cystadleuaeth i ddewis enw pob trên, a gellid eu peintio mewn lliwiau gwahanol.



Cefndir

Gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd ledled masnachfaint Cymru a'r Gororau drwy [Trafnidiaeth Cymru](#).

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru yn 2015 fel is-gwmni dan berchnogaeth lawn Llywodraeth Cymru. Trafnidiaeth Cymru yw'r sefydliad trosfwaol, ac mae elfen y rheilffyrdd, '[Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC](#)', yn gweithredu Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

Diben cychwynnol Trafnidiaeth Cymru oedd caffael, datblygu a gweithredu gwasanaethau masnachfaint rheilffyrdd a Metro newydd Cymru ar gledrau'r cymoedd, yn dilyn datganoli pwerau caffael masnachfaint y rheilffyrdd. Ym mis Mai 2018, [cyhoeddwyd](#) bod KeolisAmey wedi ennill y fasnachfaint hyd at fis Hydref 2033.

Oherwydd effaith y pandemig ar y galw am wasanaethau rheilffyrdd, ym mis Hydref 2020 [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fodel cyflenwi newydd ar gyfer Gwasanaethau TrC Trenau](#) ac ym mis Chwefror 2021 [daethpwyd â gweithrediadau rheilffyrdd o dan reolaeth gyhoeddus uniongyrchol](#).

[Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl](#) sy'n darparu rhagor o wybodaeth.

Llinell Cambria

Mae prif linell [Cambria](#) yn rhedeg o Birmingham ar draws canolbarth Cymru i Aberystwyth drwy Fachynlleth tra bod llinell arfordir Cambria yn rhedeg o Fachynlleth i Bwllheli.

Yn dilyn dyfarnu'r fasnachfaint yn 2018, roedd y cynlluniau'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cerbydau newydd neu rai wedi'u hadnewyddu ar draws y rhwydwaith. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i [ddisodli'r fflyd gyfan ar linell Cambria](#) yn ystod 2022 gyda threnau o gerbydau diesel newydd.

Yn dilyn y cyhoeddiad y byddai gweithrediadau rheilffyrdd yn cael eu dwyn o dan reolaeth gyhoeddus uniongyrchol, amlinellodd [datganiad ym mis Tachwedd 2020](#) fod yr ymrwymiad o £800 miliwn ar gerbydau newydd yn parhau.

Gofynion dylunio

Rhaid i unrhyw gynlluniau i gyflwyno dyluniad arbennig ar drenau ar draws y rhwydwaith gydymffurfio â safonau penodol. Rhaid i gwmnïau sy'n berchen ar drenau ac sy'n eu gweithredu sicrhau eu bod yn ddigon gweladwy am resymau diogelwch.

Rhaid cadw at nifer o safonau, gan gynnwys GMRT2131- Clywadwyedd a Gwelededd Trenau. Cyn 2016 roedd yn ofynnol bod pen blaen trenau yn cael ei baentio'n felyn. Fodd bynnag, nid oes angen hyn mwyach cyn belled â bod y trên yn cydymffurfio â rhai gofynion goleuadau blaen a nodir yn yr Hysbysiadau Manyleb Dechnegol Cenedlaethol (NTSNs).

Mae Safon GMRT2131 hefyd yn nodi nifer o faterion a nodwyd ar gyfer defnyddio gwahanol fathau o liwiau pen blaen trên fel a ganlyn:

- a) Using colours which already have an operational meaning to drivers and track staff. These include: red and green which are associated with signal aspects...;
- b) Using colours and surface finishes which may impact on the visibility of the train headlight...; and
- c) Patterns and text (for example, logos) which may make the shape of the front end of the train difficult for trackside staff to identify when the train is approaching them...

Enghreifftiau o ddyluniadau a gomisiynwyd yn arbennig

Yn 2020, cyflwynodd Great Western Railway (GWR) lifrai trên arbennig i ddiolch i weithwyr allweddol am eu hymdrechion yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd y dyluniad yn ymgorffori syniadau o gystadleuaeth a gynhaliwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddai angen ystyried cyllid ar gyfer unrhyw ddyluniad arbennig hefyd. Ariannwyd lifrai GWR gan y ddau gwmni preifat sy'n berchen ar ei gerbydau.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y Trên Pride of ScotRail sy'n cynnwys lliwiau'r faner cynnydd i gynrychioli'r gymuned LGBTQ+, a lifrai arbennig a gyflwynwyd gan Nexus i ddatlu 40 mlynedd o Fetro Tyne and Wear.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi ymateb gan dynnu sylw at: ofynion o ran cost ac adnoddau; yr angen i symud y trenau o wasanaeth, y ffaith nad yw trenau wedi'u cysegru i linell benodol; a'r ffaith bod gan Trafnidiaeth Cymru gontract gyda **Global Ltd.** sy'n berchen ar yr hawliau i du allan trenau ar gyfer gwerthiannau hysbysebu masnachol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1179
Ein cyf/Our ref LW/11016/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 September 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 22 Gorffennaf yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, yn glŷn ag addasu'r dyluniad paent ar drenau ar Reilffordd Calon Cymru i fod yn debyg i lindys i ddenu twristiaid.

Mae cryn gost yn gysylltiedig â mentrau o'r fath o ran amser, pobl ac arian, ac mae'n bosibl y bydd angen tynnu trenau o'r gwasanaeth er mwyn gwneud y gwaith. Dylid nodi hefyd fod trenau yn aml yn cael eu defnyddio ar draws amrediad eang o lwybrau ar rwydwaith Trafnidiaeth Cymru, ac na ellir gwarantu y bydd y trenau sydd wedi cael eu paentio â'r dyluniad a awgrymir gan y ddeiseb bob amser ar yr un llwybr. Un enghraifft o hyn yw trê'n ac arno logo pen-blwydd Rheilffordd Calon Cymru sy'n treulio cryn dipyn o amser ar Reilffyrdd Cymoedd De Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 42
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn i Drafnidiaeth Cymru ystyried y cynnig hwn yn llawn, byddai angen darparu'r canlynol.

- Dealltwriaeth neu ymchwil gadarn yn seiliedig ar farn defnyddwyr sy'n profi bod y cyhoedd mewn gwirionedd o blaid Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi cymaint o amser, ymdrech ac arian.
- Dealltwriaeth neu ymchwil gadarn yn seiliedig ar farn defnyddwyr sy'n nodi'r cynnydd posibl mewn referniw gan gwsmeriaid y gellid ei gyflawni.
- Dadansoddiad o'r anfanteision i gwsmeriaid a allai godi o ganlyniad i dynnu trenau o'r llwybr hwn o'r gwasanaeth er mwyn cyflawni'r prosiect.
- Asesiad o sut y byddai gweithgaredd o'r fath yn ategu yn uniongyrchol nodau Trafnidiaeth Cymru o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Cynnig ynghylch sut y gellid hyrwyddo menter o'r fath i'r cyhoedd, pwy ddylai wneud hyn, beth fydd y gost o ran arian ac ymdrech a beth fydd y canlyniadau.
- Cynnig ynghylch sut y gellid ariannu'r prosiect hwn a chost oes y prosiect.
- Achos busnes i ddangos cost/manteision cyffredinol y prosiect newydd arfaethedig hwn.

Mae gan Drafnidiaeth Cymru contract sefydledig gyda chwmni o'r enw Global Ltd sy'n gwerthu lle hysbysebu yn ei gorsafoedd ac ar ei threnau. Global Ltd sy'n berchen ar yr hawliau i ddefnyddio holl du allan trenau ar gyfer lle hysbysebu masnachol. O ganlyniad, byddai angen hefyd ystyried yr amodau a'r esemptiadau sy'n gysylltiedig â'r contract hwn pe bai'r cynnig yn y ddeiseb yn cael ei weithredu.

Byddai hefyd angen penderfynu pa brosiectau Trafnidiaeth Cymru presennol y gallai fod angen eu gohirio neu eu hatal er mwyn darparu ar gyfer y prosiect newydd hwn – prosiect nad oes cynlluniau na chyllideb ar ei gyfer.

Yn gywir,



Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21/0634-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1183

Teitl y ddeiseb: Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Geiriad y ddeiseb: Diolch i'r Gweinidog Trafnidiaeth, mae gan Glan Conwy groesfan angenrheidiol i gerddwyr erbyn hyn ac mae gwelliannau diweddar i'r ffyrdd wedi cynyddu gweledd. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion yn poeni am gyflymder cerbydau a gofnodwyd dros gyfnod o bythefnos gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, sef 32.8 milltir yr awr ar gyfartaledd. Mae'r groesfan yn cael ei defnyddio gan blant ysgol ac oedolion i gyrraedd safle bus a chyfleusterau chwaraeon lleol yn ogystal â bod yn rhan o lwybr seiclo. Mae llawer o adroddiadau wedi bod yn y cyfryngau am ddamweiniau a fu bron â digwydd a cherbydau yn peidio â stopio.

Un pryder penodol yw y gallai plant gredu eu bod yn ddiogel a chamu neu redeg allan i'r groesfan heb edrych. Bydd y tymor prysur yn yr haf pan fydd y twristiaid yn cyrraedd yn cynyddu'r perygl gan y bydd ymwelwyr yn anghyfarwydd â'r ffordd, yn ogystal â pheidio â thalu sylw o bosibl gan eu bod yn edmygu'r golygfeydd lleol.



I gloi, hoffai'r deisebwyr ddadlau bod 30 milltir yr awr yn rhy gyflym ar gyfer cyflwr y ffordd ar hyn o bryd ac maent yn gofyn i'r Gweinidog ystyried gostwng y terfyn cyflymder i 20 milltir yr awr yn agos at y groesfan.

Mewn gwrthdrawiad ar 30 milltir yr awr â cherddwr, y siawns o farwolaeth yw 25%, a'r siawns ar 20 milltir yr awr yw 2.5%, sy'n golygu ei fod 10 gwaith yn fwy diogel!

Byddai gosod terfyn o 20 milltir yr awr am 200 fetr yn ychwanegu ychydig eiliadau yn unig at amser taith, a byddai'n golygu ei bod yn llawer mwy diogel ac yn helpu i gael gwared ar bryderon rhieni, sy'n bwysig iawn.

1. Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd a'r awdurdod traffig ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol. Mae'r A470 yn rhan o [rwydwaith cefnffyrdd Cymru](#).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda dau asiant cefnffyrdd, [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#) (SWTRA) ac [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) (NMWTRA), i reoli, cynnal a gwella'r rhwydwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am osod terfynau cyflymder ar gefnffyrdd yn unol â'i [chanllawiau cyfredol](#). Cawsant eu cyflwyno yn 2009 ac maent yn nodi y "gellir defnyddio terfynau cyflymder 20mya ar gefnffyrdd o dan amgylchiadau eithriadol, yn gyffredinol dros hydoedd byr ac am gyfnodau cyfyngedig yn ystod y dydd".

Yn gynnar yn 2021 [gwnaed gwaith](#) ar groesfan i gerddwyr ar ddarn o'r A470 yng Nglan Conwy. Y terfyn cyflymder ar y darn hwn o'r A470 yw 30mya ar hyn o bryd, ac mae'r deisebwyr yn galw am ei ostwng i 20mya, 100 metr bob ochr i'r groesfan.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 6 Medi, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn amlinellu bod NMWTRA, yn dilyn adolygiad o'r adran hon o'r A470, wedi gwneud gwaith i dynnu sylw gyrrwyr at y groesfan i gerddwyr. Mae hefyd yn tynnu sylw at gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfyngiadau cyflymder 20mya.

Yn 2019 sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Cyflwynodd y grŵp [adroddiad](#) ym mis Gorffennaf 2020. [Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp](#), gan gynnwys y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig (y rhai sydd â system o oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd) o 30mya i 20mya.

Mae cam cyntaf y broses o gyflwyno terfyn 20mya diofyn wedi dechrau drwy [gynlluniau peilot mewn wyth cymuned](#) ledled Cymru i gasglu data cyn ei gyflwyno'n llawn yn 2023. Ym mis Medi 2021 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog [gyllid parhaus](#) ar gyfer y cynlluniau peilot hyn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi [ymgyngori ar y cynigion](#) yn ddiweddar.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cyn gosod y groesfan i gerddwyr ar y darn hwn o'r A470, codwyd y mater mewn [cwestiwn ysgrifenedig ym mis Mehefin 2018](#) gan Janet Finch-Saunders AS.

Ym mis Gorffennaf 2020 [trafododd y Senedd y syniad o gyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1183
Ein cyf/Our ref LW/10935/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

6 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ynghylch Deiseb P-06-1183 a gawsoch gan Daniel Worsley yn gofyn am gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya 200 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr ar yr A470 yng Nglan Conwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd diogelwch pob defnyddiwr ffordd o ddifrif ac mae'n adolygu'n rheolaidd y terfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn unol â'r [canllawiau](#) presennol gyda'r nod o nodi'r angen am welliannau i ddiogelwch gan gynnwys mesurau peirianeg neu newidiadau i derfynau cyflymder. Gosodir terfynau cyflymder yn seiliedig ar nifer o feini prawf gan gynnwys gwrthdrawiadau anafiadau personol a lefel y datblygiad sy'n gyfagos i'r ffordd.

Cynhaliwyd adolygiad o'r llwybr y llynedd ac er nad oedd y safle'n gymwys ar gyfer Arwydd sy'n cael ei Gynnau gan Gerbydau (VAS), mae'r gwaith wedi'i gwblhau'n ddiweddar gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i dynnu sylw gyrwyr at y groesfan wrth iddynt agosáu ati o'r ddau gyfeiriad.

Byddai Llywodraeth Cymru yn annog trigolion pryderus i fynegi eu pryderon i GanBwyll, y Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd, sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder. Gallant wneud hynny drwy'r dudalen we ganlynol: [GanBwyll – Cysylltwch â ni](#)

Cwblhaodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 20mya (TFG), dan gadeiryddiaeth Phil Jones, ei waith a chyhoeddodd ei [adroddiad](#). Mae'r adroddiad yn nodi'r achos dros newid a thystiolaeth gysylltiedig. Rydym wedi derbyn holl argymhellion y TFG ac mae ein hymateb yn tynnu sylw at sut y bydd pob un ohonynt yn cael eu datblygu i'w gweld [yma](#), gyda'r bwriad o'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn dod i rym ym mis Ebrill 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cynlluniau i leihau'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol yng Nghymru o 30mya i 20mya ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr yn rhan o flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer eleni. Mae cam cyntaf y newid hwn yn cael ei gyflwyno mewn wyth cymuned ledled Cymru eleni er mwyn casglu data a datblygu dull arfer gorau cyn cyflwyno'r newid yn llawn yn 2023. Mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Mae cam cyntaf cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi dechrau mewn 8 cymuned ledled Cymru er mwyn casglu data a datblygu dull arfer gorau cyn cyflwyno'r terfyn llawn arfaethedig yn 2023. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Y cymunedau hyn yw:

- Llandudoch, Sir Benfro
- Gogledd Llanelli, Sir Gaerfyrddin
- Saint-y-brid, Bro Morgannwg
- Canol Gogledd Caerdydd
- Pentref Cil-ffriw, Castell-nedd Port Talbot
- Y Fenni, Sir Fynwy
- Glan Hafren, Sir Fynwy
- Bwcle, Sir y Fflint

Fel rhan o'r dull hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i bobl ddweud eu dweud ar y newid cyn i'r deddfwriaeth angenrheidiol gael ei gosod. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos a bydd yn dod i ben ar 30 Medi. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ar gael [yma](#).

Yn gywir,



Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

P-05-1183 Implement a 20MPH speed limit 100 metres either side of the new pedestrian crossing in Glan Conwy, Correspondence – Petitioner to Committee, 23.09.21

Dear Committee Members,

We are pleased to hear the Deputy Minister is commencing the roll out of 20MPH limits in residential areas across Wales in 2023.

Whilst this is a step in the right direction it is long time in the future and in the meantime our residents are at risk using the pedestrian crossing on the A470. We are getting reports of near misses daily and it is inevitable that there will a serious accident sooner rather than later. Whilst the provisions in place look to be adequate they are just not working with too many drivers approaching at high speed and many seemingly oblivious to the crossing not noticing pedestrians crossing.

Vehicle Activated Signage would certainly help in making drivers aware they were approaching a crossing. The review has definitely drawn the wrong conclusions whereas a day spent watching the crossing and its near misses would draw the opposite conclusion. 20MPH limit would be less effective without VAS as the drivers who do not notice the crossing probably wouldn't see the speed limit signs either.

We need the Government's help URGENTLY! To quote Churchill, "Action this day."

Best Regards,

Papur briffio: Dechrau Cynllun Erasmus yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd

Y Pwyllgor Deisebau | 04 Hydref 2021
Petitions Committee | 04 October 2021

Cyfeirnod: SR210831

Rhif y ddeiseb: P-06-1188

Teitl y ddeiseb: Dechrau Cynllun Erasmus yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd.

Geiriad y ddeiseb:

Pan oeddem yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, roeddem yn rhan o Gynllun Erasmws.

Gan ein bod allan o'r Undeb yn awr, hoffem ddechrau fersiwn o gynllun Erasmws ar gyfer myfyrwyr Cymru.



1. Crynodeb

Ni all Llywodraeth Cymru ymrwymo i gytundebau rhyngwladol ac felly ni all ailymuno â'r rhaglen ERASMUS+.

Yn lle hynny mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei [Chynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol](#) pum mlynedd gwerth £65 miliwn ei hun, rhaglen sy'n rhannu nifer o nodweddion rhaglen ERASMUS+ 2014.

Bwriedir i'r cynlluniau symudedd cyntaf ddechrau o 2022/23. Bydd y cynllun yn gweithredu yng Nghymru ochr yn ochr â chynllun Llywodraeth y DU ei hun, sef [Cynllun symudedd Turing](#).

2. Cefndir

Nid yw'r DU yn cymryd rhan yng nghynllun symudedd staff a myfyrwyr ERASMUS+ yr UE mwyach. Ni all Llywodraeth Cymru ymrwymo i gytundebau rhyngwladol, sy'n golygu nad yw'n bosibl i Gymru ailymuno â'r cynllun.

Yn ei le, mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r [Cynllun Turing](#) gyda phrosiectau'n gweithredu o 1 Medi 2021. Mae'r cynllun Turing yn agored i holl genhedloedd y DU ond mae ganddo wahaniaethau sylweddol o'r [Cynllun ERASMUS+](#).

- Tra bod ERASMUS+ yn darparu ar gyfer symudedd i mewn ac allan (h.y. gallai sefydliadau anfon pobl dramor, yn ogystal ag ariannu pobl i ddod i'r DU) mae'r Cynllun Turing yn gynllun symudedd allanol yn unig. Mae hyn yn golygu nad yw'n gynllun dwyochrog.
- Roedd cynllun ERASMUS+ yn hwyluso symudedd staff a myfyrwyr. Mae'r Cynllun Turing yn ariannu myfyrwyr a dysgwyr yn unig.
- Tra roedd ERASMUS+ yn cefnogi symudedd i aelod-wladwriaethau'r UE a gwledydd trydydd parti penodol, mae'r Cynllun Turing yn gynllun byd-eang sy'n golygu y gall pobl o bosibl symud i unrhyw le.
- Mae'r Cynllun Turing yn caniatáu ar gyfer cyfnodau byrrach o symudedd (4 wythnos) yn wahanol i'r cynllun ERASMUS+. Bwriedir i gyfnodau byrrach o symudedd fod yn fwy deniadol i fyfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol a chefnidiroedd difreintiedig.
- Mae'r ddau gynllun yn darparu grantiau cyfradd sefydlog i gyfranogwyr ar gyfer costau byw a theithio, ond mae'r Cynllun Turing yn targedu cyllid

costau byw ychwanegol at fyfyrwyr o gefndiroedd 'difreintiedig' ac yn darparu grant teithio ychwanegol.

- Disgwylir i sefydliadau 'anfon' o dan y Cynllun Turing wneud cytundebau dwyochrog gyda'r sefydliadau 'derbyn' ynghylch ffioedd - ni ddylai myfyrwyr orfod talu ffioedd ychwanegol.
- Mae'r ystod o brosiectau a ariennir gan y Cynllun Turing yn gulach na'r cynllun ERASMUS+. Mae'r Cynllun Turing yn ariannu symudedd yn unig, nid prosiectau partneriaeth ac adeiladu capasiti ehangach.

3. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru - lansio'r Cynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol

Mynegodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei siom na fyddai'r DU yn parhau i gymryd rhan yn y cynllun ERASMUS+ ar ôl ymadael â'r UE.

Ar 21 Mawrth 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol ei hun. Bydd sefydliadau'n gallu cymryd rhan yn y Cynllun Turing a'r Cynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol. Bwriedir i'r symudedd cyntaf o dan y Cynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol ddechrau yn y flwyddyn academaidd 2022/23, gyda £65 miliwn o arian wedi'i ymrwymo hyd at 2026/27. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y bydd 15,000 o gyfranogwyr yn cael eu 'hanfon' dramor, ac y bydd 10,000 yn cael eu 'derbyn' o dramor.

Nid oes manylion llawn am weithrediad y Cynllun ar gael eto, ond mae Llywodraeth Cymru wedi egluro mai bwriad y Cynllun yw rhannu rhai o nodweddion y Cynllun ERASMUS+ nad ydynt yng Nghynllun Turing, gan gynnwys:

- Cyllid tuag allan a symudedd i mewn (er y cynigir y gosodir terfyn ar gyllid symudedd mewnol).
- Cyllido myfyrwyr a staff.
- O bosibl yn cefnogi ystod ehangach o fathau o symudedd y tu hwnt i'r lleoliadau dysgu a gwaith sydd ar gael o dan y Cynllun Turing.
- Cefnogi lleoliadau gwaith ieuenctid.

3.1. Rhagor o fanylion am y Cynllun Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig a diweddariad ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch datblygiad y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i Brifysgol Caerdydd i sefydlu, datblygu a gweithredu'r rhaglen, a fydd yn cael ei wneud drwy is-gwmni sy'n eiddo llwyr iddi. Bydd y Brifysgol yn gweithredu fel 'Gweithredwr y Rhaglen' ac mae wedi sefydlu Bwrdd Cynghori.

Y bwriad yw y bydd y cynllun yn caniatáu ceisiadau gan y sectorau a ganlyn:

- Addysg uwch
- Addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys addysg i oedolion
- Ysgolion
- Gwaith ieuenctid

Mae Llywodraeth Cymru yn egluro yn ei datganiad ysgrifenedig ei bod yn bwriadu i'r rhaglen gyflawni'r canlynol (wedi'i ddyfynnu'n uniongyrchol):

- 'Galluogi cyfleoedd cyfnewid dwyochrog (boed yn seiliedig ar symud yn gorfforol rhwng y ddau sefydliad neu gydweithrediad o bell) rhwng sefydliadau addysgol a hyfforddi yn ogystal â lleoliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac yn rhyngwladol;
- Cefnogi, cyn belled ag y bo modd, yr ystod gyfan o weithgareddau sydd wedi bod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru o dan raglen Erasmus+ yr UE, 2014 - 2020;
- Adeiladu ar lwyddiant Cymru Fyd-eang wrth ddatblygu cysylltiadau â gwledydd sy'n cael blaenoriaeth ledled y byd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Fietnam ac India, a chefnogi ystod uchelgeisiol o ysgoloriaethau a fydd yn denu'r myfyrwyr gorau a disgleiriaf o bob cwr o'r byd i astudio yng Nghymru;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r ystod ehangaf o ddysgwyr a phobl ifanc, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion gwarchoddedig;
- Cynnwys hyblygrwydd ychwanegol, yn arbennig o ran caniatáu cyfleoedd cyfnewid byrrach sy'n cynnwys addysg uwch;

Dechrau Cynllun Erasmus yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd.

- Cefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn hwyluso cyfranogiad eang yn y Rhaglen;
- Cefnogi cyfleoedd cyfnewid arbrofol, o bosibl, er mwyn cyd-drefnu partneriaethau ymchwil rhyngwladol;
- Cydweddu'n agos â'n Strategaeth Ryngwladol'.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1188
Ein cyf/Our ref JMEWL/10999/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

13 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 31 Awst ynglŷn â'r ddeiseb a gawsoch gan Thomas Aled Canter, a hoffai i Gymru ddechrau cynllun tebyg i Erasmus i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru .

Roedd y profiadau a'r cyfleoedd a ddarparwyd gan raglen Erasmus+ yng Nghymru yn werthfawr iawn, ynghyd â'r partneriaethau pwysig a grëwyd gyda sefydliadau ledled Ewrop. Dyna pam, ym mis Mawrth eleni, y gwnaethom gyhoeddi'r Rhaglen Cyfnewidfa Dysgu Rhyngwladol.

Mae'r buddsoddiad hwn o hyd at £65m yn daliad-is ar ddyfodol ein pobl ifanc. Bydd yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, y bydd y cyfleoedd a'r manteision y mae ein dysgwyr a'n staff wedi'u mwynhau o Erasmus+ yn parhau i fod ar gael iddynt yn y dyfodol. Gan ddechrau yn 2022/23, darparwyd cyllid, i ddechrau, ar gyfer pedair blynedd academiaidd lawn o weithgaredd, a bydd yn cefnogi symudedd allanol a mewnol i fyfyrwyr, dysgwyr a staff ar draws y sector addysg.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Papur briffio: Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd

Y Pwyllgor Deisebau | 04 Hydref 2021
Petitions Committee | 04 October 2021

Cyfeirnod: SR210837

Rhif y ddeiseb: P-06-1189

Teitl y ddeiseb: Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd

Geiriad y ddeiseb:

Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau meddygaeth israddedig sydd eisoes wedi astudio gradd gyntaf dalu £9,250 o flaen llaw ar gyfer ffioedd dysgu, sef cyfanswm o £37,000 erbyn dechrau eu pedwaredd flwyddyn astudio.

Mae llawer o fyfyrwyr yn gorfod gweithio swyddi rhan-amser yn ystod eu cwrs heriol, ac mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i gymorth allanol. Dylid darparu grantiau ffioedd dysgu i'r myfyrwyr meddygaeth hyn er mwyn atal myfyrwyr rhag peidio â gallu canolbwyntio ar eu hastudiaethau na'u hariannu.



1. Cefndir

Gall y rhai sydd am astudio cwrs meddygaeth israddedig gael y **pecyn arferol o gefnogaeth o ran ffioedd dysgu a chostau byw** gan Gyllid Myfyrwyr Cymru am bedair blynedd gyntaf eu cwrs. Yn ystod y bumed flwyddyn a'r blynnyddoedd dilynol maent yn gwneud **cais i'r GIG** am gymorth â ffioedd dysgu a chostau byw a bwrsari gofal iechyd sy'n dibynnu ar brawf modd, ac i Gyllid Myfyrwyr Cymru am y benthygiad cynhaliaeth is.

1.1. Rheol y radd gyntaf

Yn y rhan fwyaf o achosion, os oes gan fyfyrwr radd gyntaf o sefydliad yn y DU eisoes, nid yw'n gymwys i gael cyllid myfyrwyr pellach ar gyfer ei ffioedd na'i gostau byw i astudio am ail radd.

Mae **arweiniad Cyllid Myfyrwyr Cymru i ymarferwyr** yn egluro:

Students who hold a first degree cannot access further student support, unless they are topping up a an Ordinary degree or a Foundation Degree to an honours degree.

1.2. Eithriad i'r rheol Gradd Gyntaf

Mae'r rheoliadau'n caniatáu ar gyfer **eithriad** os yw'r ail radd israddedig yn radd mewn meddygaeth, ond mae'r eithriad hwn **yn berthnasol i gymorth costau byw yn unig**. Yn yr achosion hyn, **nid** yw myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu pellach.

Mae hyn yn golygu, fel y mae'r deisebydd yn nodi, y bydd yn rhaid i'r myfyrwyr hynny hunan-ariannu eu ffioedd dysgu llawn (£9,000 i £9,250) am bedair blynedd gyntaf y cwrs (gallant fod yn gymwys i gael cefnogaeth gan y GIG o'r bumed flwyddyn). Mae'r sefyllfa **yr un fath** yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

1.3. Nifer y bobl y mae hyn yn effeithio arnynt

Fe wnaeth tua **360 o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru** gofrestru ar gyfer gradd israddedig meddygaeth yn 2019/20. Nid yw'n hysbys faint o'r rhain oedd yn astudio meddygaeth fel ail radd ac felly nid yw'n bosibl asesu'r effaith ariannol yn sgil cyflwyno'r polisi hwn.

1.4. Grantiau ffioedd dysgu

Mae'r ddeiseb yn galw am ddarparu grantiau ffioedd dysgu yn yr achosion perthnasol. Cyn 2018, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig newydd fel rhan o'i phecyn cyllid myfyrwyr arferol. Roedd y rhain yn cael eu hariannu gan gyllideb Llywodraeth Cymru. Roedd yr un rheol gradd gyntaf yn berthnasol i grantiau ffioedd dysgu.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1189
Ein cyf/Our ref JMEWL/11000/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Awst ynghylch y ddeiseb (P-06-1189) i ddarparu grantiau dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygol sy'n astudio meddygaeth fel ail radd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i fuddsoddi mewn hyfforddi gweithlu'r GIG i ddenu'r gweithwyr iechyd proffesiynol gorau yng Nghymru. Yn gyffredinol, symudwyd o sefyllfa o ddarparu grantiau ffioedd dysgu i fenthyciadau ffioedd dysgu mewn ymateb uniongyrchol i argymhellion Adolygiad Diamond ar gymorth ffioedd dysgu. Yr hyn sy'n allweddol i'r penderfyniad hwnnw oedd sicrhau bod y cymorth i fyfyrwyr yn parhau i fod yn sefydlog ac yn gynaliadwy. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig, ac mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau anodd i gynnal fforddiadwyedd cymorth i fyfyrwyr ledled Cymru, gyda'r nod o ganiatáu i gynifer o fyfyrwyr â phosibl gael y cymorth am y tro cyntaf. Cymerir gofal i sicrhau bod y cynnig o gymorth mor deg ag sy'n bosibl.

Rydym yn ariannu addysg a hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o Gyrsiau Addysg Iechyd drwy ein Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Mae'r Cynllun Bwrsariaeth yn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio Cyrsiau Addysg Iechyd, ac i'w cymell i weithio o fewn y sector gofal iechyd yng Nghymru ar ôl ennill eu cymhwyster. Telir ffioedd dysgu myfyrwyr gan y Fwrsariaeth a gallant wneud cais am gymorth tuag at eu costau byw (grant o £1,000 nad yw'n dibynnu ar brawf modd a Bwrsariaeth o hyd at £2,643 y flwyddyn sy'n dibynnu ar brawf modd), gan gynnwys cymorth ychwanegol os oes ganddynt ddibynyddion, a Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. Gall y myfyriwr hefyd wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth ar gyfradd is o hyd at £4,675 gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Dim ond i fyfyrwyr sydd wedi cael cynnig lleoedd ar gyrsiau penodol y mae Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ar gael. Ar gyfer ail radd, byddai angen i ffioedd dysgu (sef ffi a godir yng Nghymru sy'n uchafswm o £9,000) gael eu hariannu gan y myfyrwyr eu hunain am y pedair blynedd gyntaf. Ym mlwyddyn pump bydd myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth gan y Cynllun Bwrsariaeth ar gyfer costau byw a chymorth ffioedd dysgu. Mae'r cymorth hwnnw yr

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

un fath â'r hyn a gafwyd ym mlwyddyn pump gan fyfyrwyr sy'n gwneud meddygaeth fel gradd gyntaf, yn dibynnu ar pryd y bydd myfyrwyr yn dechrau ar eu cwrs.

O ran cymorth statudol i fyfyrwyr, mae ein pecyn cymorth hael wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â gradd israddedig gyntaf yn unol â Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, fel y'u diwygiwyd. Gall myfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â gradd pum mlynedd mewn Meddygaeth yng Nghymru, fel gradd gyntaf, fod yn gymwys o dan y rheoliadau i wneud cais am gymorth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn ôl yr un telerau â myfyrwyr amser llawn eraill am bedair blynedd gyntaf eu cwrs (yn amodol ar astudiaeth flaenorol). Ar gyfer pumed flwyddyn a blynyddoedd dilynol eu cwrs bydd y myfyrwyr yn gwneud cais i Fwrsariaeth GIG Cymru am gymorth ar gyfer ffioedd dysgu a chymorth o ran costau byw; gallant hefyd wneud cais am fenthyciad cynhaliath ar gyfradd is gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.


Ar gyfer blynyddoedd un i bedwar o radd gyntaf, gall myfyrwyr cymwys wneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru am fenthyciad ffioedd dysgu o hyd at £9,000 y flwyddyn a chyfuniad o grant cynhaliath a chymorth benthyciadau sy'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £10,350 y flwyddyn; mae'r swm ar gyfer cynhaliath hefyd yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw wrth astudio yng Nghymru. Gallant hefyd gael gafael ar grantiau sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer dibynyddion a Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd. I'r rhan fwyaf, mae lefel y cymorth ar gyfer cynhaliath a ddarperir yn cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Fodd bynnag, darperir cymorth cyfyngedig o dan y rheoliadau i fyfyrwyr sydd eisoes wedi cael gradd anrhydedd yn y DU ac sy'n dymuno dilyn gradd pum mlynedd mewn meddygaeth fel ail radd. Byddai'r cymorth sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn fenthyciad cynhaliath cyfradd lawn ar gyfer blynyddoedd un i bedwar (hyd at £9,350 y flwyddyn) a benthyciad cynhaliath is ar gyfer blwyddyn pump (hyd at £4,675); mae'r swm a ddyfernir hefyd yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw wrth astudio yng Nghymru. Nid oes cymorth ffioedd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer pob blwyddyn o'r cwrs. Fodd bynnag, byddai'r myfyriwr yn gallu gwneud cais i Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru am gymorth ffioedd ym mlwyddyn pump.

Rwy wedi nodi yn yr Atodiad isod y trefniadau o ran cymorth ffioedd dysgu ar gyfer ail radd mewn meddygaeth. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r trefniadau ariannu yn ein rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd ag ail radd israddedig / gradd ôl-raddedig, neu gymhwyster cyfatebol. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi myfyrwyr yn y maes hwn ymhellach, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd gyhoeddi cynnydd yn nifer y lleoedd i fyfyrwyr a ariennir ar gyfer rhaglen C21 Gogledd Cymru, sef 25 lle ym mis Medi 2021 a 40 o leoedd ym mis Medi 2022, yn ogystal â chynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe, sef 25 o fyfyrwyr ychwanegol yn 2021.

Rwy'n gwerthfawrogi'r sylwadau a godwyd gan y deisebydd, a hyderaf fod yr uchod yn egluro'r trefniadau cymorth ar gyfer myfyrwyr meddygol cymwys.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Tudalen y pecyn 60

Atodiad

Cwrs mynediad carlam 4 blynedd i israddedigion mewn Meddygaeth fel ail radd (codir ffioedd o hyd at £9,000 yng Nghymru)		
<i>Blwyddyn Astudio</i>	<i>Cymorth ffioedd y GIG</i>	<i>Cymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru*</i>
1	Dim cymorth ar gyfer ffioedd – rhaid i fyfyrwr hunan-ariannu £3,465	Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael hyd at £5,535
2 i 4	Ar gael – hyd at £3,465 y flwyddyn drwy gymorth Bwrsariaeth	Fel uchod, fesul blwyddyn
<p>*Ym mlwyddyn 1 gall myfyrwyr wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth cyfradd lawn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.</p> <p>O ran blynnyddoedd 2 i 4, gan y gall y myfyrwyr hyn wneud cais am fwsariaethau gofaliachyd a asesir gan GIG Cymru, efallai y byddant yn gymwys i gael benthyciad cynhaliaeth ar gyfradd is gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.</p>		

Cwrs israddedig 5 mlynedd mewn Meddygaeth sy'n cael ei astudio fel ail radd yng Nghymru		
<i>Blwyddyn Astudio</i>	<i>Cymorth ffioedd y GIG</i>	<i>Cymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru*</i>
1 i 4	Dim cymorth ar gyfer ffioedd	Dim cymorth ar gyfer ffioedd
5	Ar gael – drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru	Fel uchod
<p>* Ar gyfer blynnyddoedd 1 i 4 gall y myfyrwr wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth cyfradd lawn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.</p> <p>Ym mlwyddyn 5 bydd benthyciad cynhaliaeth ar gyfradd is gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gael. Gall myfyrwyr hefyd wneud cais am gymorth gyda chostau byw o Fwsariaeth GIG Cymru ym mlwyddyn 5.</p>		

P-05-1189 Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd, Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor, 24.09.21

Annywl Pwyllgor Deisebau,

Mae'r ddogfen yn crynhoi y sefyllfa bresennol yn dda iawn ac yn llawn. Er hyn, nid yw'r ddogfen yn ystyried budd cynnig benthyciad neu grant ffioedd dysgu ar gyfer blynyddoedd 1-4 meddygaeth fel ail radd. Yn yr ystr hyn, mae'r ddogfen yn arwynebol.

Mae gan Gymru ddifyg doctoriaid. Mae gan Gymru ddifyg graddedigion meddygaeth sy'n dod yn ol i Gymru ar ol astudio tu allan i Gymru. O ganlyniad, mae doctoriaid yn y GIG dan fwy o straen nag y dylent fod ac yn aml mae doctoriad yn gorffen bob dydd yn y gwaith yn hwyr bob dydd oherwydd diffyg doctoriaid. Mae hyn wedi cyfrannu at amseroedd aros uwch ar gyfer llawdriniaethau dewisol ac amseroedd aros hir at gyfer gweld meddyg teulu. Mae angen fwy o gefnogaeth i ddoctoriaid y dyfodol yng Nghymru.

Mae gradd 2:1 neu well yn ofynnol ar gyfer pob cwrs meddygeth fel ail radd ac mae'r nifer fawr o ddoctoriaid presennol yng Nghymru yn dod i'r gweithle drwy'r llwybr yma. Mae'r llwybr hon yn llwybr a gydnabyddir

Mae Plaid Llafur Cymru yngyd a pheidiau eraill yn y Senedd yn credu yn gryf mewn cydraddoldeb cyfleoedd ("equality of opportunity"). Heb gynnig cefnogaeth dros y 4 neu 5 mlynedd o astudiaeth meddygaeth i fyfyrwyr ail-radd, nid oes cydraddoldeb cyfleoedd i ddoctoriaid y dyfodol. Mae nifer o fyfyrwyr yn gweithio er mwyn cefnogi eu hunain ac yn ei chael yn anodd iawn i dalu'r costau dysgu. Mae eraill yn gorfod gadael y cwrs oherwydd diffyg arian ac llawer fawr yn methu fforddio ystyried yr opsiwn o feddygaeth fel ail-radd o gwbl. Mae hyd y cwrs hefyd yn ei wneud yn anodd i myfyrwyr fforddio'r gost a chasglu digon o arian i dalu amdano. Mae'r straen yma ar ben y straen uwch (gan gynnwys y straen ar iechyd meddwl) sydd yn gwynebu myfyrwyr meddygaeth ar gwrs anodd a phrysur tu hwnt. Mae'n anheg fod myfyrwyr meddygaeth yn cael eu cosbi gan fod ganddynt radd yn barod.

Diolch yn fawr am eich ystyriaeth gofalus,

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1190 Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2020
Petitions Committee | 4 October 2020

Cyfeirnod: SR21/0837-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1190

Teitl y ddeiseb: Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023

Geiriad y ddeiseb: Mae corysdd a rhostiroedd mawn yn eithriadol o bwysig yn y frwydr yn erbyn yr argyfwng hinsawdd; gan ddal a storio carbon yn well na llawer o dirweddau naturiol, lleihau llifogydd a darparu bioamrywiaeth. Mae angen i ni wahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023, gan gynnwys mewnfôrion.

Ar hyn o bryd, mawn yw 40% o'r deunydd tyfu a ddefnyddir gan y cyhoedd, a mwy na 60% o'r hyn a ddefnyddir yn y sector proffesiynol. Mae yna ddeunyddiau eraill y gellir eu defnyddio, fel rhisgl coconyt, pren wedi'i gompostio a llwydni dail. Yn hytrach na chloddio mawndiroedd, dylid eu diogelu a'u hadfer.

Dylai'r Senedd ddiogelu ac adfer holl gorysdd a rhostiroedd mawn Cymru ac, yn hollbwysig, sicrhau nad oes unrhyw fawn yn yr holl ddeunydd tyfu sy'n cael ei werthu a'i ddefnyddio yng Nghymru.

- 3 miliwn metr ciwbig o fawn yn cael eu gwerthu at ddefnydd garddwriaethol bob blwyddyn yn y DU, gyda $\frac{1}{3}$ o fawndiroedd yn y DU (IUCN <http://bit.ly/peat-extraction-horticulture>)



- 20 miliwn tonnall o garbon deuocsid yn cael eu colli i'r atmosffer bob blwyddyn o fawndiroedd sydd wedi'u difrodi yn y DU (IUCN <http://bit.ly/peat-climate>)
- Dinistr y mawndiroedd yn rhyddhau symiau enfawr o CO₂ (New Scientist <http://bit.ly/peatland-destruction>)
- Mae mawndiroedd yn cefnogi llawer o rywogaethau ac ecosystemau unigryw (IUCN <http://bit.ly/peat-species>)

1. Cefndir

Mae pridd yn storfa garbon bwysig. Mae'r mwyafrif helaeth o garbon yn yr amgylchedd daearol yn cael ei storio mewn priddoedd yn hytrach na mewn llystyfiant. Amcangyfrifir bod priddoedd Cymru yn cynnwys 410 miliwn tonnall o garbon. Mae gan bridd mawnog gynnwys uchel o garbon a mater organig. Mae priddoedd mawn dwfn yn cynrychioli dros 4 y cant o arwynebedd tir Cymru, ac mae priddoedd mawnog bas yn cynrychioli 17.3 y cant ohono.

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 yn nodi bod mwyafrif yr adnodd mawn yng Nghymru mewn cyflwr gwael, a bod:

... cynnal y cynnwys carbon yn y priddoedd hyn yn flaenoriaeth allweddol o ran cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn gyffredinol, ynghyd â rheoli adnoddau dŵr yn wyneb y newid anochel yn yr hinsawdd.

Mae dogfen gysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, yn nodi:

...nid yw mawndir o'r fath yn cael ei gynrychioli'n dda yn ein cyllidebau carbon nac o fewn y llwybr allyriadau cyfredol a argymhellir gan yr UKCCC.

Dywed grwpiau amgylcheddol fod y broses adfer yn digwydd yn rhy araf, ac maent wedi bod yn ymgyrchu at ddibenion gwahardd gwerthu compost mawn. Mae'r Gymdeithas Crefftaw Garddwriaethol yn nodi nad yw gwaharddiad uniongyrchol yn realistig gan nad oes modd cael mynediad eto at y deunyddiau amgen sydd eu hangen o ran eu swmp a'u hansawdd. Mae'n ychwanegu:

Success is dependent upon government recognising the need to support the industry to bring to market new and novel alternative materials

Yn flaenorol, pennodd Llywodraeth y DU darged gwirfoddol i'r sector garddwriaeth roi'r gorau i werthu compost mawn i arddwyr erbyn 2020. Fodd bynnag bu'r dull hwn yn aflwyddiannus.

Mae ddeiseb debyg wedi cael ei thrafod gan Senedd y DU, ac mae'r ddeiseb honno bellach ar gau. Mewn ymateb, tynnodd Llywodraeth y DU sylw at Gynllun Gweithredu Mawn Lloegr, sy'n cynnwys ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad llawn ynghylch rhoi terfyn ar y defnydd o fawn mewn garddwriaeth, fesul cam, yn 2021. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cydnabod nad yw'r dull gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog), fod Llywodraeth Cymru "yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i lansio ymgynghoriad ar wahardd gwerthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn". Dywedodd hefyd:

Er nad oes unrhyw fawn yn cael ei godi yng Nghymru ar hyn o bryd, mae atal gwerthu compost mawn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Pennodd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 reolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau ledled y DU. Sefydlodd y Ddeddf egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu, a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU fel Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, os yw nwydd yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddi, gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni'r safonau yn y rhannau eraill hynny, hyd yn oed os ydyn nhw'n wahanol.

O dan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu, nid yw unrhyw reolau sy'n rheoleiddio sut y dylid gwerthu nwyddau mewn un rhan o'r DU sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn darparwyr o rannau eraill o'r DU yn berthnasol yn gyffredinol.

Gall gwahardd gwerthu deunydd tyfu sy'n cynnwys mawn ddod o fewn cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol 2020. Mae hyn yn golygu y gallai effaith a gorfodadwyedd cynnig y ddeiseb gael eu heffeithio'n ymarferol.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae Strategaeth Mawndiroedd y DU (IUCN) yn galw ar bedair Llywodraeth y DU i ddatblygu a chydlynu cynlluniau gweithredu a rhaglenni ar lefel gwlad i gyflawni cyfres o amcanion a chanlyniadau.

Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir 2020-2025, sef y rhaglen weithredu genedlaethol gyntaf ar gyfer adfer mawndiroedd Cymru. Mae'n cael ei ddarparu gan Adnoddau Naturiol Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar y mawndiroedd hynny sydd fwyaf angen eu hadfer, gyda'r nod o adfer 600-800 hectar o dir bob blwyddyn.

Wrth ymateb i'r ddeiseb hon, mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith mai "man cychwyn yn unig o ran cyflawni'n huchelgais yw'r rhaglen", a'r ffaith bod ganddi gyllideb gyfalaf o "£1 filiwn ar gyfer y gwaith a thîm wedi'i neilltuo yn CNC ar ei gyfer".

Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar adfer mawndiroedd eisoes wedi'i gyflawni drwy nifer o wahanol fecanweithiau, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS), cytundebau adran 106, a chynllun LIFE yr UE.

Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cymryd i sicrhau bod holl fawndiroedd Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy (Polisi 66).

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar 16 Mehefin 2021, gofynnodd Joyce Watson AS i Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog) am y camau "y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog garddwyr a garddwriaethwyr Cymru i fynd yn ddi-fawn." Wrth ymateb, tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir, gan nodi y byddai'r rhaglen bum mlynedd hon yn destun "adolygiad llawn".

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal cyn pen 18 mis ar ôl i'r rhaglen bum mlynedd ddod i ben, a bod disgwyl i adroddiad ar y gwaith gael "ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd cyfnod 3 ym mlwyddyn ariannol 2024/25."

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1190
Ein cyf/Our ref LG/10260/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Awst at Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ynglŷn â Deiseb P-06-1190, Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023. Anfonwyd eich llythyr ymlaen ataf i i'w ateb gan fod garddwriaeth yn un o'r cyfrifoldebau yn fy mhortffolio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i lansio ymgynghoriad ar wahardd gwerthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn. Er nad oes unrhyw fawn yn cael ei godi yng Nghymru ar hyn o bryd, mae atal gwerthu compost mawn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Lansiais raglen weithredu genedlaethol gyntaf Cymru ar gyfer mawndiroedd ym mis Tachwedd y llynedd. Mae'r rhaglen honno'n amlinellu cynllun gweithredu dros gyfnod o bum mlynedd (2020-2025) ac mae ynddo chwe thema sy'n cael blaenoriaeth:

1. Erydu ar fawndir
2. Draenio mawndir
3. Rheoli gorfawnogydd yn gynaliadwy
4. Rheoli mawn yr iseldir yn gynaliadwy
5. Adfer mawndiroedd sydd wedi'u coedwigo
6. Mynd ati'n raddol i adfer y mawndiroedd sy'n rhyddhau'r lefelau uchaf o garbon

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo'n dda, a gwnaed gwaith adfer ar fwy na 650ha yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen. Mae'n bwysig cydnabod mai man cychwyn yn unig o ran cyflawni'n huchelgais yw'r Rhaglen 5 mlynedd gychwynol. Bydd yn rhaid wrth gryn ymrwymiad dros nifer o flynyddoedd gan y Llywodraeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid i gyrraedd y nod.

Mae'r rhaglen weithredu'n canolbwyntio ar ardaloedd ar draws Cymru gyfan lle mae'r angen mwyaf am waith adfer neu reoli, ac mae hefyd yn diogelu ardaloedd sydd mewn cyflwr da ac sydd wrthi'n ymadfer. Y nod yw mynd ati'n raddol i adfer tua 600-800 ha y flwyddyn. Mae cyllideb gyfalaf o £1 filiwn ar gyfer y gwaith a thîm wedi'i neilltuo yn CNC ar ei gyfer. Un o themâu trawsbynciol y rhaglen weithredu yw meithrin gallu a chydlynu system fonitro a chofnodi genedlaethol i gasglu gwybodaeth am gyflwr a gwaith adfer.

Ymhen 18 mis ar ôl i'r Rhaglen 5 mlynedd ddod i ben, bydd CNC yn cynnal adolygiad ar sail y Themâu â Blaenoriaeth ac yn cyflwyno adroddiad am y gwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar y cyd â phartneriaid. Bydd yn ystyried y profiadau, y dysgu a'r dystiolaeth a fydd wedi'i chasglu drwy gydol y broses gyflawni ac yn gwneud argymhellion ynghylch a ddylid comisiynu ail Raglen Weithredu Genedlaethol ar gyfer Mawndiroedd. Os argymhellir hynny, bydd hefyd yn nodi ffurf a graddfa rhaglen o'r fath a pha mor gyflym y dylid mynd ati i'w chyflawni. Disgwylir y bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd cyfnod 3 ym mlwyddyn ariannol 2024/25.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**P-05-1190 Ban the use of peat in horticulture and all growing media by 2023,
Correspondence – Petitioner to Committee, 28.09.21**

The Minister's letter focusses on the National Peatland Action Programme, which is a fantastic initiative. But we do have to act *internationally*, as she says, in line with the global responsibility of the Future Generations Act.

Unless we ban the use of all peat in horticulture, we are simply exporting the problem to another country and another threatened ecosystem and carbon sink.

Also, I question whether we need yet another consultation when all the evidence shows that peatlands are valuable ecosystems in their own right and also sequester vast amounts of carbon.

Please do let me know if you would like me to provide this evidence to the Committee.

Dylid sicrhau bod graddau asesu canolfannau yn cyfrannu at y graddau TGAU a Safon Uwch terfynol

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: RS21/0837-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1192

Teitl y ddeiseb: Dylid sicrhau bod graddau asesu canolfannau yn cyfrannu at y graddau TGAU a Safon Uwch terfynol

Geiriad y ddeiseb: Rhaid inni gefnogi myfyrwyr blwyddyn 10 a blwyddyn 12 y mae'r cyhoeddiad diweddaraf ynglŷn â'r mesurau graddio a bennwyd gan Cymwysterau Cymru wedi effeithio'n negyddol arnynt.

Fel myfyriwr blwyddyn 12 sydd wedi rhoi fy ngwaed, fy chwys a'm dagrau i barhau â'm hastudiaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn, rwy'n deall pa mor ddinistriol y mae'r cyhoeddiad wedi bod yn amlinellu NA FYDD y gwaith caled rydym wedi'i wneud ac y byddwn yn parhau i'w wneud tan ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gyfrif tuag at ein gradd TGAU/Safon Uwch derfynol.

GWNEWCH YN WELL!!!



1. Penderfyniadau perthnasol ynghylch dyfarnu cymwysterau yn 2021 a 2022

Mae'r ddeiseb hon yn cyfeirio at ddwy agwedd ar [benderfyniad a gafodd ei wneud ym mis Ionawr 2021 gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd](#), ac a gafodd ei gadarnhau yn ei [Chyfarwyddyd i'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, ym mis Chwefror 2021](#), sy'n effeithio ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2022. Mae Jeremy Miles, Gweinidog newydd y Gymraeg ac Addysg, yn egluro'r rhesymeg yn ei lythyr at y Pwyllgor. Mae'r ddwy agwedd fel a ganlyn:

- Parthed disgyblion Blwyddyn 11 yn 2021/22 a oedd yn bwriadu cymryd rhai unedau TGAU unigol ar ddiwedd Blwyddyn 10 yn nhymor yr haf 2021 (ond nad oeddent yn bwriadu cwblhau'r cwrs TGAU cyfan), nid oedd modd asesu'r unedau hynny. Felly, nid oes modd iddynt ddefnyddio asesiadau ynghylch unrhyw unedau yn 2021 tuag at eu dyfarniad TGAU yn nhymor yr haf 2022, fel y byddai wedi digwydd yn arferol pe na bai'r arholiadau wedi cael eu canslo yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, parthed y disgyblion a gwblhaodd eu cyrsiau TGAU cyfan erbyn diwedd Blwyddyn 10 yn nhymor yr haf 2021, dyfarnwyd cymwysterau TGAU iddynt yn unol â'r graddau a bennwyd ar eu cyfer gan ganolfannau.
- Parthed disgyblion Blwyddyn 13 yn 2021/22, ni fydd modd iddynt ddefnyddio'r graddau Safon Uwch Gyfrannol a bennwyd ar eu cyfer gan ganolfannau pan oeddent ym Mlwyddyn 12 yn nhymor yr haf 2021, tuag at ddyfarniad eu graddau Safon Uwch yn nhymor yr haf 2022. Fodd bynnag, mae ganddynt gymwysterau Safon Uwch Gyfrannol o hyd, yn unol â'r graddau a bennwyd iddynt gan ganolfannau.

Mae sefydliad Cymwysterau Cymru wedi ateb y ddau 'Gwestiwn Cyffredin' a ganlyn ar ei [wefan](#):

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n ddysgwr Blwyddyn 10?

Os ydych wedi cwblhau'r cwrs a'ch bod yn mynd i gael eich cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn eleni, yna gallwch gael gradd wedi ei phennu gan eich ysgol. Er hynny, ni fydd yn bosibl cymryd rhai unedau TGAU yn unig eleni, a bydd angen inni ystyried beth fydd y trefniadau asesu ar gyfer y pynciau hynny y flwyddyn nesaf.

A fydd fy ngradd UG yn cyfrannu at fy Safon Uwch yn haf 2022?

Rydyn ni wedi ystyried a oes unrhyw ffordd deg o ganiatáu i ganlyniadau UG o'r haf hwn gyfrannu tuag at Safon Uwch yn haf 2022, ond yn anffodus 'does dim. Bydd dysgwyr ym Blwyddyn 12 yn cael gradd UG y bydd athrawon a darlithwyr yn ei phennu a fydd yn darparu ar gyfer symud ymlaen i'r cwrs astudio Safon Uwch, ac yn cefnogi ceisiadau UCAS. Fel arfer bydd Safon Uwch yn cael ei dyfarnu drwy roi marciau a gyflawnir ym mhob uned gyda'i gilydd (gan gynnwys unedau UG). Nid oes ffordd deg o ddefnyddio graddau o unedau UG haf 2021.

2. Rhagor o wybodaeth gefndir

Roedd presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn ystod 2020/21 yn destun tarfu parhaus yn sgil y pandemig. Felly, yn unol â'r hyn a welwyd yn nhymor yr haf 2020, ni chafwyd unrhyw arholiadau yn nhymor yr haf 2021.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ym mis Ionawr 2021](#) mai canolfannau (ysgolion a cholegau) fyddai'n pennu graddau disgyblion. Rhoddodd y [Gweinidog ar y pryd gyfarwyddyd i'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru](#), i gydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys CBAC, y corff dyfarnu, at ddibenion gweithredu [Model Gradd a Bennir gan Ganolfan](#). Nododd Cyfarwyddyd y Gweinidog na fyddai graddau Safon Uwch Gyfrannol myfyrwyr Blwyddyn 12 yn 2021 yn cyfrannu at eu dyfarniad Safon Uwch yn 2022. Yn ogystal, nododd na fyddai unrhyw asesiadau o unedau TGAU unigol a gymerwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 10 yn 2021 y gellid eu defnyddio tuag at eu graddau TGAU yn 2022.

Mae'r Fodel Gradd a Bennir gan Ganolfan yn debyg i'r [system Graddau Asesu Canolfannau a ddefnyddiwyd yn 2020](#), er nad yw yn union yr un peth. Roedd dyfarniadau canolfannau yn 2020 yn seiliedig ar botensial disgyblion – hynny yw, yr hyn y byddent wedi'i gyflawni pe byddent wedi sefyll yr arholiadau. Yn 2021, mae canolfannau wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth, i farnu "cyrhaeddiad dangosedig" disgyblion a dyfarnu gradd briodol iddynt.

Gan gymryd na fydd tarfu sylweddol pellach, [disgwylir i'r gyfundrefn arholiadau ddychwelyd yn 2022](#), gyda rhai newidiadau i adlewyrchu'r tarfu a fu hyd yn hyn. Yn ddiweddar, mae CBAC wedi cyhoeddi [manylion yr addasiadau hyn](#) i gymwysterau Safon Uwch/Safon Uwch Gyfrannol a TGAU yn 2022.

Mae'r penderfyniad ynghylch y ffaith na fydd graddau UG a ddyfarnwyd yn 2021 yn cyfrannu at y graddau Safon Uwch a ddyfarnwyd yn 2022 yr un peth â'r penderfyniad a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Nid oedd y graddau UG a ddyfarnwyd yn 2020 wedi cyfrannu at y graddau Safon Uwch a ddyfarnwyd yn 2021. Mae llythyr y Gweinidog yn nodi bod hyn oherwydd bod y broses ar gyfer dyfarnu graddau Safon Uwch Gyfrannol yn 2021 yn wahanol i'r broses arfaethedig ar gyfer dyfarnu graddau Safon Uwch yn 2022 (gan gymryd y bydd arholiadau'n bosibl), ac felly na ddylid cyfuno'r ddau.

Roedd erthygl Ymchwil y Senedd ym mis Medi 2021 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses o ddyfarnu cymwysterau yn ystod y pandemig.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1192
Ein cyf/Our ref JMEWL/11026/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Medi 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Medi yn tynnu fy sylw at ddeiseb a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Deisebau sy'n pwysleisio'r angen i roi cymorth i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 a 12 a chanddynt bryderon am drefniadau cymwysterau ar gyfer 2022.

Rwy'n cydnabod bod dysgwyr a'u teuluoedd ac ymarferwyr yn awyddus i gael gwybod manylion y trefniadau a fydd yn eu lle ar gyfer dysgwyr yn 2022.

I ailadrodd a darparu ychydig mwy o gyd-destun i bryderon y deisebydd, pan wnaed y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2021 ym mis Chwefror 2021, oherwydd y sefyllfa barhaus mewn perthynas â'r pandemig, cytunwyd y byddai dysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn cael gradd UG a bennwyd gan eu canolfan. Roedd hyn er mwyn cydnabod y gwaith caled a'r dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd, i gefnogi dilyniant i'r cwrs Safon Uwch ac i gefnogi ceisiadau UCAS.

Fodd bynnag, cadarnhawyd ar yr un pryd na fyddai'r ganolfan yn pennu graddau UG yn cyfrannu at y dyfarniad Safon Uwch terfynol yn 2022. Ystyriwyd y defnydd o lefelau UG a ddyfarnwyd drwy'r trefniadau hyn yn fanwl gan y [Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni](#). Gan fod graddau Safon Uwch fel arfer yn cael eu dyfarnu drwy roi 'marciau' gwahanol unedau at ei gilydd (gan gynnwys unedau UG) penderfynwyd nad oedd ffordd deg na chyfartal o gyfuno dull 'gradd' o raddau a bennwyd gan y ganolfan, gyda dull seiliedig ar 'farc' yn 2022 pan fydd disgwyl i arholiadau ddychwelyd. Dyma'r un dull a gymerwyd ar gyfer dysgwyr a oedd yn cwblhau lefelau UG yn 2020 drwy raddau asesu canolfannau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Mawrth, cadarnhaodd Cymwysterau Cymru mai'r bwriad oedd cynnal arholiadau ar gyfer 2022 ac y gwneir addasiadau i fanylebau pwnc er mwyn lleihau'r cynnwys sy'n cael ei asesu, megis lleihau asesiadau nad ydynt yn arholiadau a dileu unedau asesu ac unedau dewisol, i adlewyrchu'r tarfu a wynebwyd gan ddysgwyr yn ystod y pandemig.

I lywio'r addasiadau hyn, cynhaliodd CBAC drafodaethau manwl ag ymarferwyr ynghylch y cynigion, gan ddefnyddio'r addasiadau a wnaed ar gyfer 2021 fel man cychwyn. Cynhaliodd hefyd ymarferion ymgynghori gyda'r proffesiwn addysg, dysgwyr, rhieni a gofawyr. Arweiniodd hyn at drafodaeth gadarnhaol a daeth 1,200 o ymatebion i law gan athrawon, darlithwyr, uwch arweinwyr ysgolion a cholegau a chafwyd dros 900 o ymatebion i arolwg ar gyfer dysgwyr, rhieni a gofawyr. Cyhoeddodd CBAC ganlyniad yr Arolwg Dysgwyr mewn [adroddiad](#) ar 3 Medi.

I gefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer tymor yr hydref, rhoddwyd gwybod i weithwyr addysg proffesiynol am yr addasiadau terfynol cyn diwedd tymor yr haf. Disgwylir y bydd yr addasiadau terfynol ar gael i'r cyhoedd ar wefan CBAC cyn bo hir. Byddwn felly yn annog dysgwyr i gadw mewn cysylltiad â'u canolfannau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn y mae'r addasiadau yn ei olygu ar gyfer y pynciau a ddewiswyd ganddynt. Byddwn hefyd yn eu hannog i ymweld â gwefan [CBAC](#) a fydd yn parhau i gyhoeddi'r manylion, y cyngor a'r arweiniad diweddaraf.

Ochr yn ochr â hyn, gan ddefnyddio ein profiad o 2021, mae Cymwysterau Cymru yn datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer trefniadau asesu amgen rhag ofn y bydd tarfu pellach yn y byd addysg – caiff hyn ei lywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r broses graddau a bennwyd gan ganolfannau, yn ogystal â'r paratodau sy'n cael eu gwneud gan reoleiddwyr eraill, i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais. Rwy'n cydnabod ei bod yn bwysig i ysgolion a cholegau, yn ogystal â dysgwyr, gael dealltwriaeth o'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â chymwysterau a threfniadau wrth gefn cysylltiedig cyn gynted â phosibl ac mae fy swyddogion yn cydweithio â Cymwysterau Cymru i'r perwyl hwn.


Rwyf hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'r dysgwyr hynny a allai fod yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o sefyll arholiadau am y tro cyntaf. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ceisiwyd blaenoriaethu lles a dilyniant dysgwyr er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud i'w camau nesaf mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant – bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau yn 2022.

Er mwyn cefnogi addysgu a dysgu rydym wedi cydweithio â CBAC i ddatblygu ystod o [adnoddau](#) ar gyfer gwahanol gymwysterau gan gynnwys trefnwyr gwybodaeth a ffug arholiadau. Mae adnoddau pellach bellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i gefnogi cymwysterau eraill. Rydym hefyd wedi cyhoeddi casgliad o adnoddau a chanllawiau i gefnogi'r ddarpariaeth ddysgu cyfunol a sicrhau bod adnoddau ar gael i ddysgwyr a rhieni i gefnogi parhad dysgu a dilyniant: <https://hwb.gov.wales/dysgu-cyfunol>. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi rhoi ystod o adnoddau ategol ar waith i ddysgwyr mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles, gan gynnwys datblygu'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc sydd ar gael drwy [Hwb](#).

Rydych hefyd yn ymwybodol fy mod, ym mis Mehefin, wedi cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol o £150 miliwn ar gyfer 2021/22 drwy'r [cynllun Adnewyddu a Diwygio](#) ar gyfer addysg. Mae £6.25 miliwn o'r cymorth hwn wedi'i glustnodi ar gyfer cefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion er mwyn sefydlu cynlluniau tymor hir gwydn ar gyfer achosion o COVID-19 yn y dyfodol, a £24 miliwn ohono er mwyn parhau i gefnogi a mentora dysgwyr drwy'r rhaglen [Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau](#) gan gynnwys y gefnogaeth benodol y bydd ei angen ar ddysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Deisebau a diolch yn fawr i chi am dynnu fy sylw at y ddeiseb hon.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

P-06-1196 Sefydlu System Wobrwyo Genedlaethol Er Anrhydedd; Gwobr Urdd Marchog Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21-0837-8

Rhif y ddeiseb: P-06-1196

Teitl y ddeiseb: Sefydlu System Wobrwyo Genedlaethol Er Anrhydedd; Gwobr Urdd Marchog Cymru

Geiriad y ddeiseb:

Yr ydym ni, y cyhoedd yng Nghymru, wir yn dymuno dod ag Urddas i Gyflawnwyr ein Cenedl

Mae'n drasiedi lwyr bod cynifer o gyflawnwyr ein Cenedl wedi'u claddu, yn angof a heb eu dathlu mewn beddi ym mhob cwr o'r byd.... drwy gydol ein hanes balch a hir

Fy nymuniad, ers tro, yw anrhydeddu'r eneidiau hyfryd hyn, yma yng Nghymru sydd wedi ymuno mewn hanes a'u calonau, mae'n debyg, wedi torri o wybod na chawsant eu gwir gydnabyddiaeth yng..... "Ngwlad ein Mamau a'n Tadau "



1. System anrhydeddau'r DU

1.1. Cefndir

Rhoddir anrhydeddau gan y brenin neu'r frenhines. Mae'r mwyafrif o anrhydeddau a roddir heddiw yn rhan o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig. Cafodd hyn yn ei sefydlu gan Frenin Siôr y Pumed ym 1917 i wobrwyo gwasanaeth di-frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r Goron yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys system anrhydeddau'r DU.

1.2. Dethol

Gall unrhyw un enwebu rhywun i gael anrhydedd. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi arweiniad ynghylch am beth y ceir rhoi anrhydeddau.

Mae deg pwylgor pwnc annibynnol yn ystyried enwebiadau am anrhydeddau ac yn cynghori'r Prif Weinidog. Mae'r Prif Weinidog yn cyflwyno rhestr o argymhellion ar gyfer anrhydeddau i'r Frenhines. Mae'r Ysgrifennydd Amddiffyn a'r Ysgrifennydd Tramor hefyd yn cyflwyno rhestrau.

Cyhoeddir y rhestrau anrhydeddau adeg y Flwyddyn Newydd a Phen-blwydd Swyddogol y Frenhines ym mis Mehefin.

1.3. Gwobrau

Gall y Frenhines ddyfarnu gwahanol fathau o anrhydedd, gan gynnwys gwneud rhywun:

- yn Gydymaith Anrhydedd;
- yn Farchog neu'n Fonesig;
- yn Gomander Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE), yn Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE), neu Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE).

Gall y Frenhines hefyd dynnu anrhydeddau yn ôl yn unol â chyngor Gweinidogion a Phwyllgor Fforffedu. O dan Ddeddf Anrhydeddau (Atal Cam-drin) 1925, mae'n anghyfreithlon masnachu mewn anrhydeddau.

2. Gwobrau Dewi Sant

2.1. Cefndir

Ym mis Chwefror 2013, fe wnaeth y Ceidwadwyr Cymreig gyflwyno cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd):

1. Yn nodi pwysigrwydd cydnabod a dathlu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig; ac
2. Yn credu y dylid ystyried cyflwyno System Anrhydeddau Cymreig i gydnabod a gwobrwyo'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fywyd Cymru. [...]

Cymeradwyodd y Cynulliad y cynnig. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi dechrau Gwobrau Dewi Sant ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno, a rhoddwyd y gwobrau cyntaf ym mis Mawrth 2014. Ers hynny, mae'r gwobrau'n cael eu rhoi bob blwyddyn.

2.2. Dethol

Ceir deg gwobr Dewi Sant, a phob un mewn categori gwahanol. Yn y naw categori cyntaf, gall unrhyw un enwebu unigolion neu grwpiau. Mae Pwyllgor Cynghori annibynnol Gwobrau Dewi Sant yn dewis y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol a'r Prif Weinidog sy'n dewis yr enillwyr. Y wobr olaf yw Gwobr Arbennig y Prif Weinidog; y Prif Weinidog sy'n dewis yr enillydd yn uniongyrchol.

2.3. Gwobrau

Mae enillwyr gwobrau Dewi Sant yn cael tlws, ac mae'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael tystysgrif a bathodyn arian.

3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Fe wnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ymateb i'r ddeiseb hon ym mis Medi 2021, gan gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno system anrhydeddau sy'n benodol i Gymru.

Yn y llythyr, dywedodd y Gweinidog:

Rwy'n credu y dylid ystyried sut mae gwneud System Anrhydeddau'r DU yn fwy cynhwysol, o ran ei phrosesau ond hefyd mewn perthynas â'i chyd-destun diwylliannol hanesyddol.

Nododd y Gweinidog y byddai'n barod i roi mewnbwn i unrhyw adolygiad o ran sut y gellid gwneud y system anrhydeddau yn fwy cynhwysol, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i gynyddu amrywiaeth y bobl sy'n cael eu henwebu ar gyfer anrhydeddau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf - JH-/10461/21

Jack Sargeant
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

16 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 2 Medi ar y ddeiseb gan Neil App Jones am sefydlu System Genedlaethol Anrhydeddus o Wobrau.

Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch ar eich penodiad diweddar yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Bwriad system Anrhydeddau'r DU yw cydnabod a dathlu cyflawniad, ymroddiad ac ymrwymiad rhagorol, a'r rhai y mae eu gwaith wedi dod â rhagoriaeth i fywyd Prydain a Chymru.

Fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig, ni all Llywodraeth Cymru gynnal ei gwobrau ei hun fel rhan o system Anrhydeddau'r DU ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu system Anrhydeddau benodol i Gymru. Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at system Anrhydeddau'r DU fel ffordd o gydnabod llwyddiannau ac ymroddiad pobl Cymru ac, er nad yw'n rhan o system Anrhydeddau'r DU, sefydlodd Llywodraeth Cymru Wobrau Dewi Sant yn 2014 gydag enwebiadau gan y cyhoedd, sef gwobrau cenedlaethol Cymru.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig iawn i groesawu amrywiaeth a gwella cynhwysiant ledled ein cymdeithas, felly fyddwch chi ddim yn synnu o glywed fy mod yn credu y dylid ystyried sut y caiff System Anrhydeddau'r DU ei gwneud yn fwy cynhwysol, nid yn unig o ran ei phrosesau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ond hefyd mewn perthynas â'i chyd-destun diwylliannol hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i gyfrannu at unrhyw adolygiad o'r fath.

Mae gennym gyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yng Nghymru. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud newidiadau a gynlluniwyd i godi proffil ac ehangu cyrhaeddiad Anrhydeddau. Yn ogystal ag ymestyn ein rhwydweithiau, rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda rhanddeiliaid i siarad drwy'r broses Anrhydeddau, ac i roi cymorth a chefnogaeth gyda'r dasg anodd yn aml o baratoi enwebiad. Mae llawer mwy i'w wneud o hyd os ydym am weld ystod mwy amrywiol o Anrhydeddau yn cael eu dyfarnu yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod fy myfyrdodau a'm crynodeb o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor ac, yn benodol, yn dangos er nad oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i sefydlu system anrhydeddau sy'n benodol i Gymru, mae llawer y gallwn ei wneud o fewn y trefniadau presennol yng Nghymru i sicrhau bod y nifer fawr o unigolion rhagorol yn ein cymdeithas yn cael eu cydnabod am eu llwyddiannau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

P-06-1198 Dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru achub y coed, y gwrychoedd a'r caeau yng Nghefn yr Hendy, Meisgyn

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21/0988-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1198

Teitl y ddeiseb: Dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru achub y coed, y gwrychoedd a'r caeau yng Nghefn yr Hendy, Meisgyn

Testun y ddeiseb: Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i atal ei chynlluniau i werthu'r 49 erw o gaeau gleision ym Meisgyn ar gyfer 460 o dai. Gofynnwn iddi beidio â gwerthu'r tir ar gyfer codi tai a rhoi'r gorau i'w chynlluniau ar gyfer y datblygiad. Rydym yn annog Gweinidogion Cymru i roi sylw i'r argyfwng hinsawdd, cadw at egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a thynnu yn ôl y cynlluniau ar gyfer y caeau hyn. Gan na fydd ysgol newydd yn cael ei darparu ar y safle, bydd hyn hefyd yn achosi mwy o draffig ar y ffyrdd a llygredd.

Mae'r caeau'n ffinio ar Goed-yr-Hendy (coetir hynafol), Afon Clun a Chors y Pant, sy'n safle gwarchod natur. Mae gan y caeau lawer o goed a fydd yn cael eu colli oherwydd adeiladu ffyrdd newydd ar gyfer yr ystâd newydd. Bydd gwaith codi tai yn niweidio'r gwrychoedd a'r glasbrennau. Mae Coed-yr-Hendy a'r caeau yn gartref i nifer fawr o adar, mamaliaid bach a phryfed; gwelir adar ac ystlumod yn gyson yn hela eu bwyd uwchben y caeau - ni ddylem fynd â hyn oddi wrthynt. Bydd adeiladu ar y caeau hyn yn cael effaith drychinebus ar fywyd gwylt lleol a'r system ecolegol leol.

Yn sgil y datganiad ar argyfwng hinsawdd y wlad hon, mae'n hollbwysig cadw ein gwrychoedd, ein coed a'n mannau gwyrdd o gofio eu bod yn amsugno ac yn hidlo



carbon deuocsid a llygryddion aer eraill. Hefyd, maent yn helpu i ddraenio dŵr glaw a lleihau erydiad pridd. Byddai parhau i ffermio defaid ar y caeau hyn yn dod â buddion aruthrol i'n hamgylchedd ym Meisgyn a'r tu hwnt.

Ni all Ymchwil y Senedd wneud sylw ar achosion unigol ac ni all drafod rhinweddau ceisiadau cynllunio unigol.

1. Cefndir

Yn 2020, cyflwynodd y deisebydd ddeiseb debyg iawn i Bwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd. Roedd y deiseb hon yn ymwneud â'r un safle ac yn codi'r un materion. Yn dilyn newid i'w amgylchiadau personol, gofynnodd y deisebydd i'r ddeiseb honno gael ei thynnu'n ôl. Cytunodd y Pwyllgor a'ch ragflaenodd i wneud hynny.

Y datblygiad yng Nghefn yr Hendy, Meisgyn

Yn 2018, rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad o 460 o dai yng Nghefn yr Hendy, Meisgyn.

Gellir gweld y dogfennau sy'n ymwneud â'r cais cynllunio amlinellol ar wefan [Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf](#).

Y broses gynllunio

Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ynghyd â materion perthnasol eraill, a elwir yn 'ystyriaethau perthnasol'.

Nodir prif bolisiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru o ran cynllunio defnydd tir ym [Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040](#).

Caiff polisiau cynllunio lleol eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cynigion a pholisiau ar gyfer defnyddio tir lleol yn y dyfodol. Dyma'r brif ddogfen a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mewn egwyddor, gall unrhyw ystyriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir fod yn ystyriaeth berthnasol. Yn y pen draw, y llysoedd sy'n penderfynu.

Caniatâd cynllunio amlinellol

Gellir gwneud cais am dri phrif fath o ganiatâd cynllunio, sef caniatâd amlinellol, caniatâd manwl a chaniatâd llawn. Yn achos caniatâd amlinellol, gwneir ceisiadau

cychwynnol nad ydynt yn cynnwys y manylion llawn am holl elfennau dylunio'r cynnig. Felly, mae ceisiadau caniatâd cynllunio amlinellol yn caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch egwyddorion cyffredinol datblygiad arfaethedig, cyn cyflwyno cynnig sy'n cynnwys y manylion llawn maes o law.

Mae dau fath o gymeradwyaeth amlinellol. Mewn rhai achosion, caiff yr holl elfennau dylunio manwl eu 'cadw yn ôl' i'w cymeradwyo yn y dyfodol, ac mewn achosion eraill, caiff rhai elfennau eu cynnwys yn y cais amlinellol tra bod elfennau eraill wedi'u cadw yn ôl.

Yn yr achos y mae'r ddeiseb hon yn cyfeirio ato, cadwyd pob mater yn ôl, ac eithrio mynediad, pan roddwyd caniatâd cynllunio amlinellol. O ran y materion a gadwyd yn ôl, mae'n ofynnol i'r datblygwr gyflwyno ceisiadau i'w cymeradwyo o fewn tair blynedd i'r dyddiad y rhoddwyd caniatâd amlinellol. Fodd bynnag, ym mis Mai 2021, rhoddwyd caniatâd i'r datblygwr ymestyn y cyfnod hwn am dair blynedd arall.

Rhoddwyd y caniatâd amlinellol yn ddarostyngedig i 31 o amodau cynllunio, yn cynnwys gofynion am fesurau gwarchod coed, cynllun gwarchod bywyd gwyllt, cynllun rheoli cynefin a chynllun lliniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

Mae'r datblygwr wedi gwneud sawl cais ers hynny yn gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo bod rhai o'r amodau hyn wedi'u bodloni. Er enghraifft, cymeradwywyd cais y datblygwr ym mis Medi 2020, ac felly ystyrir bod yr amod i lunio cynllun gwarchod bywyd gwyllt wedi'i fodloni. Mae'r cynllun hwn ar gael gyda'r dogfennau sy'n ymwneud â'r cais.

2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Fel y nodwyd, roedd y Pwyllgor a'ch ragflaenodd yn bwriadu trafod deiseb debyg yn 2020 cyn iddi gael ei thynnu'n ôl. Ym mis Mawrth 2020, gwnaeth Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd, ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Roedd ei lythyr yn nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r eiddo dan sylw yn destun cytundeb cyd-fenter rhwng Gweinidogion Cymru a Talbot Green Developments Limited ac mae rhwymedigaeth ar y partion sy'n rhan o'r cyd-fenter i hyrwyddo'r eiddo ar y cyd ar gyfer datblygiad preswyl ac i waredu'r eiddo gyda buddiant caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl.
- Mae'r cytundeb hwn wedi'i etifeddu o gytundebau a wnaed gan gyrff blaenorol, sef yr Is-adran Tir ac Awdurdod Datblygu Cymru.
- Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ym mis Mawrth ym Mhont-y-clun i ystyried a ddylid cofrestru'r caeau fel Maes Tref a Phentref. Canfu'r arolygydd nad oedd y prawf statudol ar gyfer cofrestru wedi'i fodloni ac felly gwrthodwyd y cais.
- Mae'r safle wedi'i neilltuo yng nghynllun datblygu lleol Rhondda Cynon Taf ar gyfer datblygiad preswyl fel rhan o ddyraniad safle strategol.
- Mae rhwymedigaeth cynllunio cysylltiedig (cytundeb adran 106) yn sicrhau cynllun cyflogaeth a sgiliau, cyfraniad ariannol parcio a theithio, darparu'r

ganolfan leol, rhoi cynllun rheoli tir cynefin 25 mlynedd ar waith ynghyd â chynllun rheoli llain glustogi o goetir, darparu man agored cyhoeddus a meysydd chwarae a'r trefniadau rheoli cysylltiedig ac 20 y cant o dai fforddiadwy.

- Mae gofyniad i dalu Ardoll Seilwaith Cymunedol hefyd a gaiff ei gyfrifo pan fydd y materion a gadwyd yn ôl yn cael eu cymeradwyo.
- Bydd y caeau agored ar gyrion ffin ogleddol y safle yn parhau'n agored ac yn cael eu rheoli at ddibenion ecoleg a mynediad i'r cyhoedd fel rhan o'r cynllun rheoli tir cynefin.
- Ni fynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru nac ecolegydd awdurdod cynllunio lleol Rhondda Cynon Taf unrhyw wrthwynebiad yn ddarostyngedig i'r amodau a'r cytundeb adran 106 y cyfeiriwyd atynt uchod.

